Ydych chi'n dysgu

# cymraeg?

Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Meirion a'r Cyffiniau
**Awst 1 – 8 2009**

# Croeso cynnes i ddysgwyr!

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ŵyl arbennig sy'n rhoi cyfle i ymwelwyr fod yn rhan o ddathliad o ddiwylliant Cymru, mae hefyd yn gyfle gwych i bobl ddangos eu doniau ar y llwyfan mawr!

Mae bron i 200 o gystadlaethau i gyd: pob un yn agored i chi, ond mae rhai yn agored i ddysgwyr yn unig.

Pam cystadlu?

- Mae'n hwyl
- Mae dysgwyr eraill yn gwneud
- Mae'r gwobrau yn dda
- Bydd tocyn i chi fynd ar y maes ar ddiwrnod y gystadleuaeth os byddwch yn cystadlu ar y Llwyfan (sef cystadlaethau 117 – 122)
- Mae'n hawdd cystadlu

Os nad oes digon o hyder gyda chi i gystadlu ar y llwyfan, beth am gystadlu mewn un o'r cystadlaethau cyfansoddi?

Mae digon o ddewis ar gael i ddysgwyr ar bob lefel!








## Geirfa
Vocabulary

**Ymwelwyr**
Visitors

**Dathliad**
Celebration

**Diwylliant**
Culture

**Doniau**
Talents

**Cystadlaethau**
Competitions

**Cystadlu**
Compete

**Gwobrau**
Prizes

**Llwyfan**
Stage

**Hawdd**
Easy

**Hyder**
Confidence

**Cystadlaethau cyfansoddi**
Composition competitions

# Have you just started learning Welsh?

The National Eisteddfod of Wales is a major festival which provides an opportunity for visitors to celebrate Wales' wealth of culture. Maes D is the learners' pavilion and the place to be for people learning Welsh, so why not visit us during the Eisteddfod week?

This booklet is aimed at those who are learning Welsh and wish to compete in the Eisteddfod. If you have just started learning Welsh there is a competition open to you…

Cystadleuaeth rhif 125:

Ysgrifennu deialog (holi ac ateb) hyd at 100 o eiriau.

Ask your tutor for help with the entry form.

I gystadlu, anfonwch:

- Eich gwaith
- Ffurflen gais Cyfansoddi (yn y llyfr yma)
- £4.00
- amlen dan sêl sy'n cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad ar ddarn o bapur i: Swyddog y Dysgwyr, Swyddfa'r Eisteddfod, Hen Dŷ'r Ysgol, Ffordd Glanrafon, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PA erbyn 1 Ebrill 2009.

## Geirfa
Vocabulary

**Cystadleuaeth**
Competition

**Ysgrifennu**
Write

**Deialog**
Dialogue

**Holi ac ateb**
Question and answer

**Hyd at 100 o eiriau**
Up to 100 words

**Anfonwch**
Send

**Ffurflen gais cyfansoddi**
Composition entry form

**Amlen dan sêl**
Sealed envelope

**Sy'n cynnwys**
Which contains

**Enw a'ch cyfeiriad**
Name and address

**Ar ddarn o bapur**
On a piece of paper

# Diffinio'r Dysgwyr

Mae 3 lefel yn y cystadlaethau ar gyfer oedolion (dros 18 oed):

**Lefel 1:** Mynediad, neu wedi derbyn hyd at 100 awr o oriau cyswllt.

**Lefel 2:** Sylfaen/Canolradd, neu wedi derbyn hyd at 300 o oriau cyswllt.

**Lefel 3:** Uwch, neu wedi derbyn dros 300 o oriau cyswllt.

**Agored:** Cystadlaethau sy'n agored i unrhyw un sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel oedolyn ac i ddisgyblion ysgol sydd ddim wedi derbyn addysg gyfrwng Cymraeg.

**Llwyfan**

Rhaid i enwau'r holl gystadleuwyr, ar y ffurflen briodol ynghyd â'r tâl priodol, fod yn llaw Swyddog y Dysgwyr erbyn 1 Mai 2009.

**Cyfansoddi**

Rhaid i'r cyfansoddiadau fod yn llaw Swyddog y Dysgwyr erbyn 1 Ebrill 2009.

Ystyrir arddangos rhai o'r gweithiau buddugol ym Maes D yn ystod yr wythnos.







## Geirfa
Vocabulary

**Diffinio'r dysgwyr**
Defining the learners

**Oriau cyswllt**
Contact hours

**Agored**
Open

**Swyddog y Dysgwyr**
Learners Officer

**Llwyfan**
Stage

**Cyfansoddi**
Composition

**Ystyrir arddangos**
Consider displaying

**Gweithiau buddugol**
Winning works

## Cystadlaethau Llwyfan:

Llenwch ffurflen gais Llwyfan ac wedyn ei hanfon i: Swyddog y Dysgwyr, Swyddfa'r Eisteddfod, Hen Dŷ'r Ysgol, Ffordd Glanrafon, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PA erbyn 1 Mai 2009.

Bydd rhaid i chi gynnwys:

- Y ffurflen gais Llwyfan
- Tâl cystadlu – yn daladwy i Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Amlen 9.5" x 6.5" gyda stamp a'ch cyfeiriad. Bydd yr Eisteddfod yn anfon manylion cystadlu atoch chi ym mis Mehefin 2009.

## Y tâl cystadlu yw:

**Unigolion:** £8.00
Grwpiau o 2, 3 neu 4 person: £8.00 yr un
Grwpiau o 5 neu fwy: £65.

**Pwysig:** Os ydych chi'n cystadlu mewn sawl cystadleuaeth, llenwch ffurflen arall bob tro. Mae croeso i chi wneud copi o'r ffurflen gais.

# Eisteddfod Genedlaethol Cymru Meirion a'r Cyffiniau Awst 1 – 8 2009

## A Ffurflen Gais LLWYFAN Adran y Dysgwyr

**Dyddiad cau: 1 Mai 2009**

Rhif y gystadleuaeth

Teitl y gystadleuaeth

Enw'r unigolyn / grŵp

Nifer yr aelodau

Tâl cystadlu £ (£8.00 i unigolion; £65 i grwpiau o 5 neu fwy)

Enw a chyfeiriad y cystadleuydd neu arweinydd y grŵp:

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Ffôn (Dydd) Symudol

E-bost

Ymrwymaf/wn i gydymffurfio ag amodau'r gystadleuaeth.

Llofnod Dyddiad

# National Eisteddfod of Wales Meirion and District Aug 1 – 8 2009

## A Entry form STAGE Learners Section

**Closing date: 1 May 2009**

Competition number

Title of competition

Name of individual/choir/party/group

No. of members

Entry fee enclosed £ (£8.00 for individuals; £65 for groups of 5 or more)

Name and address of competitor or group leader:

Name

Address

Post Code

Tel. Mobile

E-mail

I/We undertake to adhere to the Conditions in the List of Subjects.

Signed Date

### Stage Competitions:

Please complete and return this form to: Swyddog y Dysgwyr, Eisteddfod Office, Old School House, Glanrafon Road, Mold, Flintshire, CH7 1PA by 1 May 2009.

You will need to include:

- The Stage entry form
- Entry fees – Crossed cheques payable to Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
- 9.5″ x 6.5″ self-addressed envelope with stamps. Full details of the competition will be sent to you in June 2009.

### The entry fee is:

Individuals: £8.00
Duets, Trios and Quartets: £8.00 each
Groups of 5 or more: £65.

NB: If you are competing in more than one competition, please complete a separate form for each competition. You are welcome to photocopy this form.

**Cystadlaethau Cyfansoddi:**

Llenwch ffurflen gais Cyfansoddi ac wedyn ei hanfon i: Swyddog y Dysgwyr, Swyddfa'r Eisteddfod, Hen Dŷ'r Ysgol, Ffordd Glanrafon, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PA erbyn 1 Ebrill 2009.

Bydd rhaid i chi gynnwys:

- Y ffurflen gais Cyfansoddi
- Eich gwaith ysgrifenedig
- Tâl cystadlu – £4.00 yn daladwy i Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Amlen dan sêl sy'n cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad ar ddarn o bapur.

Bydd y beirniaid ddim yn gwybod pwy ydych chi, ond os byddwch chi'n ennill, bydd swyddog yr Eisteddfod yn agor yr amlen dan sêl i gael gwybod eich enw.

Pwysig: Os ydych chi'n cystadlu mewn sawl cystadleuaeth, llenwch ffurflen arall bob tro. Mae croeso i chi wneud copi o'r ffurflen gais.

# Eisteddfod Genedlaethol Cymru Meirion a'r Cyffiniau Awst 1 – 8 2009

## C Ffurflen Gais CYFANSODDI Adran y Dysgwyr

**Dyddiad cau: 1 Ebrill 2009**

Rhif y gystadleuaeth ________________

Teitl y gystadleuaeth ________________

Eich ffugenw ________________

Tâl cystadlu £ ________ (£4.00)

Yr wyf fi, sef awdur y gwaith a gyflwynir dan y ffugenw uchod, yn tystio bod fy enw a'm cyfeiriad yn yr amlen dan sêl yn ddilys, a bod yr holl waith a gyflwynir yn waith gwreiddiol o'm heiddo fy hun, a heb ei wobrwyo o'r blaen yn yr Eisteddfod Genedlaethol, na'i gyhoeddi yn rhannol nac yn gyfan.

Yr wyf hefyd, trwy hyn, os yw'r gwaith yn fuddugol, fel perchennog yr hawlfraint ynddo, yn rhoi'r hawl i Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol gyhoeddi'r gwaith am y tro cyntaf yn ystod wythnos yr Eisteddfod, neu o fewn tri mis i ddiwrnod olaf yr Eisteddfod, heb imi dderbyn breindal a heb ymgynghori â mi. Ymhellach yr wyf yn cydnabod hawliau Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol yn y gwaith yn y dyfodol yn unol ag Amodau a Rheolau Cyffredinol yr Eisteddfod ac yn benodol rheol 4.

**NID YW'R FFURFLEN HON I'W RHOI YN YR AMLEN DAN SÊL**

# National Eisteddfod of Wales Meirion and District 1 – 8 Aug 2009

**C** **Entry form COMPOSITION Learners Section**

**Closing date: 1 April 2009**

Competition number

Title of competition

Your nickname

Entry fee £ (£4.00)

I, the author of the work entered under the above nickname, testify that my name and address in the sealed envelope is correct, and that the work submitted is original and of my own composition, and has not been previously entered in the National Eisteddfod, or partly or wholly published.

I also, if the work is deemed the winner, as the owner of the copyright to the work, grant the National Eisteddfod Council permission to publish the work for the first time during the Eisteddfod week, or within three months to the last day of the Eisteddfod, without receiving payment or without consulting with me. I also acknowledge the National Eisteddfod Council rights to the work in the future in accordance with the Eisteddfod Rules and General Conditions, and specifically rule 4.

**THIS FORM SHOULD NOT BE ENCLOSED IN THE SEALED ENVELOPE**

## Composition Competitions:

Please complete and return this form to:
Swyddog y Dysgwyr, Eisteddfod Office,
Old School House, Glanrafon Road, Mold,
Flintshire, CH7 1PA by 1 April 2009.

You will need to include:

- The Composition entry form
- Your written work
- Entry fee – £4.00 Crossed cheques payable to Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
- Sealed envelope containing your name and address on a piece of paper.

The adjudicators will not know your identity, but if you win, an Eisteddfod officer will open the sealed envelope to find out your name.

NB: If you are competing in more than one competition, please complete a separate form for each competition. You are welcome to photocopy this form.







# Cystadleuaeth ar lwyfan y pafiliwn

The Eisteddfod has competitions for you even if you have only just started learning. See especially competition 125:

| Rhif a math o gystadleuaeth | Teitl y gystadleuaeth | Lefel | Dyddiad cau | Gwobrau | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| CYSTADLEUAETH AR LWYFAN Y PAFILIWN | | | | | |
| 117<br>Llefaru Unigol | 'Codi Pontydd', Menna Elfyn,<br>Er dy fod [Gomer] | Agored | 1 Mai 2009 | 1. £60<br>2. £30<br>3. £20<br>(£110 Hafwen John, Y Bala) | |
| CYSTADLAETHAU AR LWYFAN MAES D (PABELL Y DYSGWYR) Beirniaid: Robat Arwyn a Mair Tomos Ifans | | | | | |
| 118<br>Cân unigol | Cân unigol o'ch dewis chi mewn unrhyw arddull | Agored | 1 Mai 2009 | 1. £60<br>2. £30<br>3. £20<br>(£110 Dysgwyr y Bala, er cof am Marged Jones) | Bydd piano ar gael ond rhaid darparu eich cyfeilydd eich hun |
| 119<br>Grŵp canu | Grŵp canu o 5 neu fwy, unrhyw gân o'ch dewis chi mewn unrhyw arddull | Agored a chaniateir hyd at 2 o Gymry Cymraeg | 1 Mai 2009 | 1. £100 (Clwyd ac Edith Roberts, Y Bala)<br>2. £60 (Dysgwyr y Bala, er cof am Marged Jones)<br>3. £40 (Dysgwyr y Bala, er cof am Marged Jones) | Bydd piano ar gael ond rhaid darparu eich cyfeilydd eich hun |
| 120<br>Cyflwyniad llafar | Cyflwyniad llafar i 2 neu fwy mewn nifer<br>Testun: Tomen | Agored | 1 Mai 2009 | 1. £60 (Cyn Gymdeithas Athrawon Ysgolion Cynradd Meirion)<br>2. £30 (Helen Newell Jones, Bontddu)<br>3. £20 (Cyn Gymdeithas Athrawon Ysgolion Cynradd Meirion) | Amser: rhwng 3-5 munud |
| 121<br>Darllen | Darllen darn ar gyfer 1, 2 neu 3 o bobl<br>e.e. Darn o'r gyfres 'Nofelau Nawr' [Gwasg Gomer] | Mynediad a Sylfaen | 1 Mai 2009 | 1. £60<br>2. £30<br>3. £20 | Amser: dim mwy na 3 munud |
| 122<br>Darllen | Darllen Blog | Agored | 1 Mai 2009 | 1. £60<br>2. £30<br>3. £20 | Amser: rhwng 3-5 munud |

| Rhif a math o gystadleuaeth | Teitl y gystadleuaeth | Lefel | Dyddiad cau | Gwobrau | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYSTADLAETHAU CYFANSODDI** | | | | | |
| 123<br>Y Gadair | Cerdd: Gwreiddiau | Agored | 1 Ebrill 2009 | Gwobr: Cadair (Pat Neill) a £75 (Mari Roberts, Deganwy) | Beirniad: Ifan Prys |
| 124<br>Y Tlws Rhyddiaith | Darn o ryddiaith, hyd at 500 o eiriau<br>Testun: Gŵyl e.e. Wâ Bala, Sesiwn Fawr Dolgellau, Parti Ponty | Agored | 1 Ebrill 2009 | Gwobr: Tlws a £75 (Mari Roberts, Deganwy) | Beirniad: Fflur Dafydd |
| 125 | Deialog (holi ac ateb)<br>Tua 100 o eiriau | Mynediad | 1 Ebrill 2009 | £50 (Nia Powys Cooke, er cof am ei rhieni Anna a W.D.Williams) | Beirniad: Glenys Hughes |
| 126 | Darn o ryddiaith<br>Testun: Ddoe<br>Tua 150 o eiriau | Sylfaen | 1 Ebrill 2009 | £50 (Pwyllgor Iaith a Gofal Merched y Wawr Meirionnydd) | Beirniad: Ioan Talfryn |
| 127<br>Gwaith Grŵp | Cyfres o eitemau amrywiol i lenwi 2 dudalen maint A4, mewn arddull cylchgrawn megis Lingo Newydd | Agored | 1 Ebrill 2009 | £50 | Beirniad: Meleri Wyn James |
| 128 | Dyddiadur tridiau<br>Tua 250 o eiriau | Canolradd | 1 Ebrill 2009 | £50 (Cyn Gymdeithas Athrawon Ysgolion Cynradd Meirion) | Beirniad: Ian Colin Williams |
| 129 | Croesair | Agored | 1 Ebrill 2009 | £100 (Hafwen John, Y Bala) | Beirniad: Len Jones |
| **PARATOI DEUNYDD AR GYFER DYSGWYR** | | | | | |
| 130 | Deunyddiau amlgyfrwng i helpu gyda geirfa a threigladau | Agored i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg | 1 Ebrill 2009 | £75 (Cymdeithas Cymry Manceinion er cof am Dafydd Crug ac Elsie Price Jones) | Beirniad: Emyr Davies |

# Tlws Dysgwr y Flwyddyn

Dyma gystadleuaeth arbennig iawn. Mae'r gystadleuaeth bellach wedi ennill ei lle fel un o brif gystadlaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Mae'r gystadleuaeth yma yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl yn llwyddo i ddysgu Cymraeg, ac nid yn unig hynny, bod llawer o'r bobl sydd yn llwyddo hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn at fywyd ein cymunedau Cymraeg.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw ddysgwr dros ddeunaw oed sydd erbyn hyn yn siarad yn eithaf rhugl.

**Gwobrau:** Tlws Dysgwr y Flwyddyn (Dysgwyr Y Bala, er cof am Marged Jones) a £300 (Tafarn yr Eryrod, Llanuwchllyn) i'r enillydd, ynghyd â £100 yr un i bawb arall sy'n ymddangos yn y rownd derfynol (£300 Tafarn yr Eryrod, Llanuwchllyn). Tanysgrifiad blwyddyn yr un gan y cylchgrawn Golwg i'r ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rownd derfynol a thlysau rhoddedig gan Ddysgwyr y Bala, er cof am Marged Jones.

**Beirniaid y rownd derfynol:**
Haydn Hughes, Elin Williams, Clive Wolfendale

**Trefn y Cystadlu**

Cynhelir rowndiau cynderfynol yn ystod mis Ebrill/Mai 2009 a bydd y cystadlu yno ar ffurf sgwrs/gweithgaredd gyda thîm o feirniaid. Penderfynir ar leoliad y rowndiau cynderfynol ar ôl derbyn yr enwebiadau i gyd. Dewisir cystadleuwyr o'r rowndiau cynderfynol i gystadlu yn y rownd derfynol a gynhelir yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yn y rownd derfynol cyflwynir yr ymgeiswyr ym Maes D ar ddiwrnod y gystadleuaeth ac hefyd bydd cyfweliad anffurfiol gyda 3 pherson cefnogol yn ystod y dydd, a noson i'w chofio gyda phryd o fwyd a chyfle i bawb fwynhau ffrwyth llafur dysgu'r iaith. Cyflwynir yr enillydd mewn seremoni fer o lwyfan yr Eisteddfod y diwrnod ar ôl y gystadleuaeth ac os dymunir gall yr enillydd ddweud gair.

Dylid anfon y ffurflen gais erbyn 31 Mawrth 2009 at:

**Swyddog y Dysgwyr**
**Swyddfa'r Eisteddfod**
**Hen Dŷ'r Ysgol**
**Ffordd Glanrafon**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 1PA**

## Sut i gystadlu?

Mae dwy ffordd o gystadlu – hunanenwebiad neu enwebiad gan diwtor neu unrhyw berson arall. Bydd angen i gystadleuwyr sy'n hunanenwebu lenwi adran A ar y ffurflen, ac enwebwyr i lenwi adran B.

Anfonwch y ffurflen at Swyddog y Dysgwyr, Swyddfa'r Eisteddfod, Hen Dŷ'r Ysgol, Ffordd Glanrafon, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PA erbyn 31 Mawrth 2009, gyda:

Darn ysgrifenedig (tua 300 gair) wedi'i ysgrifennu gan:

**A Y cystadleuydd** neu
**B Yr enwebydd**

Dylai'r darn gynnwys yr elfennau canlynol am y person sy'n cystadlu:

a) gwybodaeth gyffredinol e.e. teulu a diddordebau;
b) rhesymau dros ddysgu Cymraeg;
c) y ffordd o ddysgu, ac ers faint (nodwch ddosbarthiadau'r gorffennol a'r presennol, os yn berthnasol);
ch) y profiad o ddysgu;
d) defnydd o'r iaith erbyn hyn;
dd) cyfraniad at y gymuned leol;
e) gobeithion ar gyfer y dyfodol.

# Eisteddfod Genedlaethol Cymru Meirion a'r Cyffiniau Awst 1 – 8 2009

**Llenwch adran A neu B**

## A Y Cystadleuydd

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Ffôn (Dydd) Ffôn (Nos)

Llofnod

Darn ysgrifenedig wedi'i gynnwys (Gweler 'Sut i gystadlu')

## B Yr Enwebydd (os yn berthnasol)

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Ffôn (Dydd) Ffôn (Nos)

Llofnod

Darn ysgrifenedig wedi'i gynnwys (Gweler 'Sut i gystadlu')













maes d

Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government